

Data Cyfrifiad 2011 ar Gyfer Sir Gaerfyrddin – Poblogaeth preswyl arferol

	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
Poblogaeth breswyl arferol	183,777		3,063,456		56,075,912	
Gwrywod	89,837	48.9%	1,504,228	49.1%	27,573,376	49.2%
Benywod	93,940	51.1%	1,559,228	50.9%	28,502,536	50.8%
Yn byw mewn aelwyd	181,227	98.6%	3,011,182	98.3%	55,071,113	98.2%
Yn byw mewn sefydliad cymunedol	2,550	1.4%	52,274	1.7%	1,004,799	1.8%
Plentyn ysgol neu fyfyrwr mewn addysg amser llawn sy'n 4 oed a throsodd yn ei gyfeiriad y tu allan i'r tymor	2,254		35,061		685,206	
Arwynebedd (Ha)	237,035		2,073,511		15,101,354	
Dwysedd poblogaeth	0.8		1.5		3.7	

Diffiniadau

Preswlydd arferol:

Y brif sylfaen boblogaeth ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2011 yw'r boblogaeth breswyl arferol ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011. Er bod y boblogaeth a gyfrifwyd yn cynnwys preswylwyr byrdymor nad ydynt yn dod o'r DU, caiff y boblogaeth hon ei dadansoddi ar wahân ac nid yw wedi'i chynnwys ym mhrif allbynnau Cyfrifiad 2011. Caiff yr holl allbynnau, oni nodir yn wahanol, eu cynhyrchu gan ddefnyddio preswylwyr arferol yn y DU yn unig.

At ddibenion Cyfrifiad 2011, mae preswlydd arferol y DU yn cynnwys unrhyw un a oedd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn y DU ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu â chyfeiriad parhaol yn y DU a'r tu allan i'r DU ac yn bwriadu aros y tu allan i'r DU am lai na 12 mis.

Caiff plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn sy'n astudio oddi cartref eu trin fel petaent yn byw yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor fel arfer. Dim ond gwybodaeth ddemograffig sylfaenol (enw, rhyw, oedran, statws priodasol a chydberthynas) a gesglir yn eu cyfeiriad yn ystod y gwyliau (eu cyfeiriad 'cartref' neu 'wyliau'). Nid yw'r wybodaeth am deuluoedd, maint cartrefi a chyfansoddiad cartrefi ar gyfer eu cyfeiriad 'gwyliau' yn eu cynnwys.

Mae dwysedd poblogaeth yn ymwneud â nifer y preswylwyr arferol fesul hectar. Hectar yw'r uned fetrig o arwynebedd a ddiffinnir fel 10,000 o fetrau sgwâr neu tua 2.47 erw.